



*Helo. Fy enw i yw*

**DOROTHY  
BONARJEE**

**Ganed:** 1894

**Man geni:** Bareilly, India

Rydw i'n fardd ac yn  
gyfreithwraig.

Cefais fy ngeni yn India, ond symudodd fy  
nheulu i Loegr pan oeddwn i'n ddeg oed.  
Roedd fy nhad yn gyfreithiwr yn Llundain  
am rai blynyddoedd cyn iddo ef a fy mam  
ddychwelyd i India. Arhosodd fy nau frawd a  
fi yn Lloegr gyda ffrindiau i'r teulu.

Es i'r brifysgol yn Aberystwyth i astudio  
Ffrangeg. Roeddwn i'n mwynhau bod yng  
Nghymru a dyna pryd y dechreuais  
farddoni. Un flwyddyn fi enillodd y wob  
yn eisteddfod y coleg! Roedd fy rheulu  
yn hynod falch a hapus drosta i. Wedi  
hynny, des yn gyfreithwraig a brwydro  
dros hawl merched i gael pleidleisio.

CC BY-NC



*Hello, I'm*

# DOROTHY BONARJEE

**Born:** 1894

**Birth place:**  
Bareilly, India

I'm a poet and lawyer.

I was born in India, but my family moved to England when I was ten years old. My father worked as a lawyer in London for a few years before he and my mother returned to India. My two brothers and I stayed in England with family friends.

I went to University in Aberystwyth to study French. I enjoyed my time in Wales and started writing poetry. One year, I even won the college eisteddfod! My family were so proud and happy for me. I later became a lawyer fighting for women's right to vote.

CC BY-NC



*Helo. Fy enw i yw*  
**YOUHANNAH  
EL KAREY**

**Ganed:** 1844

**Man geni:**  
Nablus, Palesteina

Rydw i'n genhadwr.

Cefais fy ngeni yn Nablus i deulu o Gristnogion. Yn ddiweddarach, des i Bontypridd i astudio diwinyddiaeth a theithio o gwmpas Cymru yn sôn am fy ngwaith cenhadol ym Mhalesteina.

Yna fe ddychwelais i Nablus gyda Alice, fy ngwraig, a'n plant. Roedden ni'n cynnal Ysgol Sul ac yn gofalu am bobl sâl, yn Fwslimiaid ac yn Gristnogion. Roedd yn waith caled.

**CC BY-NC**



Hello, I'm

YOUHANNAH  
EL KAREY

**Born:** 1844

**Birth place:**  
Nablus, Palestine

I'm a missionary.

I was born in Nablus into a Christian family. Later, I studied theology in Pontypridd and travelled around Wales to talk about my missionary work in Palestine.

My wife, Alice, and our children returned with me to Nablus where we ran a Sunday school and cared for the sick, Muslims and Christians alike. It was hard work.

CC BY-NC



Helo. Fy  
ennw i yw

# SHEIKH SAEED ISMAIL

**Ganed:** 1930

**Man geni:**  
South Shields,  
Tyne and Wear

Rydw i'n arweinydd  
Mwslimaidd.

Llongwr o Yemen oedd  
fy nhad a fy mam yn  
Gymraes. Wedi i fy nhad  
farw yn yr Ail Ryfel Byd  
gadawodd fy mam i mi  
fyw gyda ffrind i fy  
nhad, yr Imam Hassan  
Ismail, yng Nghaerdydd  
ac yna yn Yemen.

Ar ôl blynyddoedd o astudio, dilynais fy nhad  
maeth a dod yn Imam Tre-biwt. Ar fy nheithiau  
cesglais gyfraniadau ar gyfer adeiladu mosg  
newydd hardd. Ni chefais erioed fy nhalu am fy  
ngwaith. Yn hytrach, roeddwn yn ennill fy  
mywoliaeth fel weldiwr yn gweithio shifftiau nos.

CC BY-NC



Hello, I'm

**SHEIKH  
SAEED  
ISMAIL**

**Born:** 1930

**Birth place:**  
South Shields,  
Tyne and Wear

I'm a Muslim leader.

My father was a sailor from Yemen and my mother came from Wales. After my father died in World War II, my mother allowed me to live with my father's friend, the Imam Hassan Ismail, in Cardiff and later in Yemen.

After many years of study, I took over my foster-father's role and became Butetown's new Imam. In my travels, I collected donations to build a beautiful new mosque, too. I was never paid for my spiritual work. Instead, I earned my living as a welder working night-shifts.

CC BY-NC



Helo. Fy  
ennw i yw

JENNY  
JAMES

**Ganed:** 1927

**Man geni:**  
Pontypridd

Rydw i'n achubwr  
bywyd yn y dŵr.

Cefais fy ngeni a'm magu ym  
Mhontypridd. Roeddwn i'n  
frwd am nofio erioed ond ni  
ddysgais nofio fy hun hyd nes  
roeddwn yn saith oed!  
Roeddwn i'n mwynhau bod  
yn y dŵr gymaint nes i mi  
ddod yn hyfforddwraig nofio  
ac yn achubwr bywyd.

Fi oedd y fenyw gyntaf i nofio Môr  
Hafren i'r ddau gyfeiriad a'r  
Gymraes gyntaf i nofio'r Sianel. O  
ganlyniad, roeddwn i'n cael  
defnyddio pob pwll nofio yng  
Nghymru am ddim am weddill fy  
oes!

(CC) BY-NC



Hello, I'm

**JENNY  
JAMES**

**Born:** 1927

**Birth place:**  
Pontypridd


I'm a lifeguard.

I was born and grew up in Pontypridd. Swimming has always been my passion, but I did not learn to swim myself until I was seven years old! I enjoyed my time in the water so much that I became a swimming coach and lifeguard.

I was the first woman to swim the Bristol Channel in both directions and I was the first Welsh woman to swim the English Channel. As a result, I was given free entry to all swimming pools in Wales for the rest of my life!

**(CC) BY-NC**





*Helo. Fy  
ennw i yw*

MARY  
JOHN

**Ganed:** 1874


**Man geni:**  
Ton Pentre

Rydw i'n gantores  
glasurol.

Cefais fy ngeni yn Nhon Pentre yn  
rhan o deulu mawr. Roedd fy rhieni'n  
berchen ar siop esgidiau, ond y tu  
allan i waith, roedden nhw wrth eu  
boddau gyda cherddoriaeth. Fe  
wnaethon nhw annog y saith ohonom  
ni'r plant i ymuno yn y diddordeb.  
Dyna sut y dechreuais ganu.

Cefais fy llwyddiant mawr  
cyntaf yn Eisteddfod  
Genedlaethol Pontypridd yn  
1893, pan enillais am ganu  
soprano yn rhan o ddeuawd.  
Cefais fy ngwahodd i ganu ar  
hyd a lled America a gerbron y  
Frenhines hyd yn oed!

(CC) BY-NC



*Hello, I'm*

**MARY  
JOHN**

**Born:** 1874

**Birth place:**  
Ton Pentre

I'm a classical singer.

I was born in Ton Pentre into a large family. My parents owned a shoe shop, but outside work they had a great love for music. They encouraged my six siblings and I to join them in their passion. That's how I began singing.

My first great success was at the 1893 Pontypridd National Eisteddfod, where I won singing soprano in a duet competition. I was invited to sing all over America and even before the Queen!

**(CC) BY-NC**



Helo. Fy  
enw i yw

# PETER JONES

**Ganed:** 1802


**Man geni:**  
Burlington Heights,  
Canada

Rydw i'n weinidog,  
yn awdur ac yn  
bennaeth.

Pan gefais fy ngeni, galwodd fy  
mam fi yn Kahkewāquonāby.  
Americanwr Cymreig oedd fy nhad,  
ond gwahanodd y ddau a chefais fy  
magu gyda fy nheulu Ojibwe.  
Wedi i ni ddioddef sawl cynhaeaf  
gwael es i fyw gyda fy nhad a'i  
deulu newydd. Yn y pen draw  
dechreuais ddefnyddio fy enw  
newydd, Peter Jones.

Des yn weinidog gyda'r Methodistiaid ac yn  
bennaeth ac ysgrifennais lyfrau am ddiwylliant  
yr Ojibwe. Ar un o fy nheithiau i Brydain,  
ymwelais ag Abertawe a dweud wrth bobl yno  
am fy magwraeth ac am fy ngwaith gyda'r  
genedl Ojibwe. Roedd y papurau newydd yn  
cyfeirio ataf fel y pennaeth Cymreig.

(CC) BY-NC



Hello, I'm

**PETER  
JONES**

**Born:** 1802

**Birth place:**  
Burlington Heights,  
Canada

I'm a minister,  
writer and chief.

When I was born, my mother named me Kahkewāquonāby. She and my American Welsh father separated and I grew up with my Ojibwe family. We suffered several bad harvests and so I rejoined my father and his new family. Eventually, I took my new name, Peter Jones.

I became a Methodist minister and chief and wrote books about Ojibwe culture. On one of my journeys to Britain, I visited Swansea and told the people about my upbringing and work with Ojibwe nation. The newspapers even called me the Welsh chief.

**(CC) BY-NC**



Helo. Fy  
enw i yw

ELAINE  
MORGAN

**Ganed:** 1920

**Man geni:**  
Pontypridd

Rydw i'n ysgrifennu  
ar gyfer y teledu ac  
yn awdur.

Cefais fy ngeni ym Mhontypridd i  
deulu o lowyr. Roeddwn wrth fy  
modd gyda llyfrau ers pan oeddwn  
yn blentyn, ac yn mwynhau dysgu  
am wyddoniaeth ac actio yn theatr  
yr ysgol.

Astudiais lenyddiaeth Saesneg yn y  
brifysgol gan fy mod yn mwynhau  
llynyddiaeth ac ysgrifennu fy  
storiau fy hun. Fe wnaeth y BBC  
droi llawer o fy storïau yn ddramâu  
radio a chyfresi teledu.  
Ysgrifennais lyfrau poblogaidd ar  
wyddoniaeth hefyd, ac am  
esblygiad bodau dynol.

CC BY-NC



Hello, I'm

ELAINE  
MORGAN

**Born:** 1920

**Birth place:**  
Pontypridd

I'm a TV writer  
and author.

I was born in Pontypridd into a miner's family. Already as a child, I loved my books, learning about science and acting in school theatre.

At university, I studied English literature because I enjoyed literature and writing my own stories. The BBC turned many of my stories into radio plays and TV series. I also wrote popular science books and books about human evolution.

CC BY-NC



Helo. Fy  
enw i yw

AARON  
MOSSELL

**Ganed:** 1863

**Man geni:**  
Hamilton, Canada

Rydw i'n gyfreithiwr, yn  
beiriannydd mwyngloddio  
ac yn ymgyrchydd  
hawliau dynol.

Cefais fy ngeni yng Nghanada i deulu  
mawr. Roedd fy rhieni a fy mrodyr a  
chworydd yn ymgyrchu dros hawliau  
pobl Ddu, ac felly roedd gen i  
ddiddordeb yn y gyfraith. Pan oeddwn  
i'n 25 oed fi oedd y myfyriwr Du  
cyntaf i raddio yn y gyfraith yn UDA.

Doeddwn i ddim yn hapus yn fy mhriodas a  
phenderfynais ddechrau bywyd newydd.  
Symudais i Gymru a dod yn beiriannydd  
mwyngloddio. Ond roedd gen i ddiddordeb o  
hyd mewn hawliau dynol a bûm yn ymgyrchu  
dros hawliau morwyr Du yng Nghaerdydd, lle  
roeddwn i bellach yn byw. Un diwrnod, daeth  
perthynas pell i mi, Paul Robeson, i'r drws. Dyna  
syrpreis oedd hynny!

CC BY-NC



Hello, I'm

AARON  
MOSSELL

**Born:** 1863

**Birth place:**  
Hamilton, Canada

I'm a lawyer, mining  
engineer and civil  
rights campaigner.

I was born in Canada into a large family. Because my parents and siblings campaigned for the civil rights of Black people, I also became interested in law. When I was 25 years old, I graduated as the first Black law student in the USA.

I was not happy in my marriage and decided to start a new life. I moved to Wales and became a mining engineer. But I kept my interest in civil rights and campaigned for the rights of Black sailors in Cardiff, my new home. One day, a distant relation, Paul Robeson, knocked at my door. What a surprise that was!

(CC) BY-NC





*Helo. Fy  
ennw i yw*

## MORFYDD OWEN

**Ganed:** 1891


**Man geni:**  
Trefforest

Rydw i'n  
gyfansoddwraig.

Cefais fy ngeni i deulu bychan yn Nhrefforest. Roedd fy mam yn gantores wych ac yn chwarae'r piano. Rhaid fy mod yn tynnu ar ei hôl hi gan fy mod innau wedi dechrau chwarae'r piano'n ifanc ac yna wedi astudio cyfansoddi, yng Nghaerdydd yn y lle cyntaf ac wedyn yn Llundain.

Roedd y darnau cerddoriaeth roeddwn i'n eu cyfansoddi o safon mor uchel fel i mi gael fy nerbyn i'r Orsedd yn 21 mlwydd oed. Creais sawl sgôr ar gyfer cerddorfa lawn ac ar gyfer ensembles llai, ond darnau ar gyfer y llais a'r piano oedd y gorau a gyfansoddais.

**(CC) BY-NC**



Hello, I'm

# MORFYDD OWEN

**Born:** 1891


**Birth place:**  
Treforest

I'm a composer.

I was born into a small family in Treforest. My mother was a wonderful singer and played the piano. I must have taken after her because I learned playing the piano from a young age and then studied composition first in Cardiff and then in London.

Already my early pieces were of such a high quality that I was admitted into the Gorsedd of the Bards when I was only 21 years old. I wrote many scores for full orchestra and for smaller ensembles, but my best pieces were songs for voice and piano.





*Helo. Fy  
enw i yw*

## FLORENCE REES

**Ganed:** 1906

**Man geni:**  
Abercynon

Rydw i'n swolegydd.

Cefais fy magu yn rhan o deulu bychan yn Aberdâr, lle roedd fy nhad yn gweithio i'r heddlu. Roedd gen i ddiddordeb brwd mewn gwyddoniaeth a swoleg oedd fy mhwnc yn y brifysgol. Organebau bychan fel mwydod a pharasitiaid oedd yn mynd â fy mryd yn bennaf.

Roedd yr ymchwil wnes i ar fwydod yn help i ddatblygu ffyrdd i atal ac i drin afiechydon mewn anifeiliaid eraill, fel defaid. Derbyniais y Fedal Linneaidd am fy ngwaith, sy'n un o'r anrhydeddau pennaf i swolegwyr.

CC BY-NC



Hello, I'm

## FLORENCE REES

**Born:** 1906

**Birth place:**  
Abercynon

I'm a zoologist.

I grew up in a small family in Aberdare where my father worked for the police. Science fascinated me, so I studied zoology at university. I was particularly interested in small organisms like worms and parasites.

My studies of worms helped develop ways to prevent and treat diseases in other animals like sheep. In recognition of my work, I received the Linnean Medal, which is one of the highest honours for zoologists.

CC BY-NC